YR EGLWYS YNG NGHYMRU
THE CHURCH IN WALES

RHOI YN SYTH

Gwnewch wahaniaeth i'ch cymuned gyda *Debyd Uniongyrchol* ...

... *Cefnogi gwaith eich Eglwys*

Rhif Elusen Gofrestredig: 1142813
Rhifyn: Ionawr 2026

Pam defnyddio Rhoi yn Syth?

Mae Rhoi yn Syth yn caniatáu i chi gefnogi gwaith eich Eglwys neu Ardal Weinidogaeth trwy daliad untro neu drwy roi'n rheolaidd trwy Ddebyd Uniongyrchol.

Chi sydd yn rheoli'ch rhoi bob amser, a gallwch newid yr hyn rydych chi'n ei roi yn ôl yr angen gan ddefnyddio ein ffurflenni ar-lein yn: www.churchinwales.org.uk/cy/clergy-and-members/gift-direct neu drwy gysylltu â'r Tîm Rhoi yn Syth ar e-bost: giftdirect@cinw.org.uk.

Mae eich eglwys leol yn gwybod yn union beth sy'n cael ei dderbyn ac yn gallu cynllunio ei gwaith yn unol â'i chyllideb.

Mae Rhoi yn Syth yn cael ei weinyddu'n llawn gan Gorff y Cynrychiolwyr, gan gynnwys hawlio Cymorth Rhodd ar roddion cymwys, ac anfonir 100% o'r rhoddion a'r Cymorth Rhodd i'ch eglwys neu brosiect enwebedig.

Mae eich rhoddion yn gyfrinachol a dim ond gyda'ch trysorydd lleol y maen nhw'n cael eu rhannu, a hynny at ddibenion cyfrifyddu, yn unol â'n hysbysiad preifatrwydd: www.churchinwales.org.uk/cy/privacy-notice.

Rhodd Cymorth

Cymhelliant treth yn y DU yw Rhodd Cymorth sy'n galluogi unigolion i roi arian i elusennau yn y Deyrnas Unedig heb orfod talu treth.

Os ydych chi'n talu treth, gallwn hawlio Rhodd Cymorth ar bob rhodd, sy'n ychwanegu 25c at bob £1.

Faint bynnag y penderfynwch chi ei roi, bydd yn gwneud gwahaniaeth i bobl Cymru.

Edrychwch sut mae eich arian wedi helpu

Mae gwirfoddolwyr o Eglwys y Santes Fair a Dewi Sant yn y Fflint yn rhedeg clwb bwyd, ochr yn ochr â'r bore coffi wythnosol a'r ganolfan glyd. Mae Y Bwrdd/The Table yn croesawu tua 50 o bobl sy'n talu £2 i ddewis 10 eitem o fwyd o ansawdd da. Mae llawer o eglwysi'n rhedeg banciau bwyd tebyg fel ffordd o wasanaethu eu cymunedau ar adegau o angen.

Mae gwarchod ein treftadaeth Gymreig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn rhan bwysig o waith yr unig lyfrgell cadeirlan yng Nghymru. Mae'r llyfrgell, sydd wedi'i lleoli yn Eglwys Gadeiriol hanesyddol Tyddewi, yn gofalu am ddogfennau a llyfrau allweddol, megis rhai o'r Beiblau Cymraeg a'r llyfrau gweddi cyntaf. Daeth nifer o'r rhain i Lyfrgell y Gadeirlan ar ôl tua phedair canrif o ddefnydd gan addolwyr mewn eglwysi ar hyd a lled Cymru. Mae'r llyfrgell hefyd yn adnodd hanfodol i archifwyr, haneswyr ac ymchwilwyr eglwysig o bob cwr o'r byd.

Mae rhan o fynwent wedi ei thrawsnewid yn ardd yn Llansamlet, Abertawe. Mae Gardd Gymunedol Mynwent Llansamlet yn cael ei rhedeg gan gyfuniad o aelodau'r eglwys a'r gymuned a Shine Cymru, sefydliad lleol sy'n helpu oedolion ifanc ag anawsterau dysgu. Rhoddir ffrwythau a llysiau a dyfir i'r banc bwyd sydd wedi'i leoli yn Eglwys Sant Samlet. Mae cynlluniau i annog bywyd gwyllt drwy greu ardaloedd o weirglodd ac ychwanegu bwydwyr adar, blychau ystlumod, blychau draenog a gwestai pryfed.

O arwain addoliad i ymweld â'r rhai sy'n sâl ac yn gaeth i'r tŷ, gall gwirfoddolwyr chwarae mwy o ran drwy helpu eglwysi i wasanaethu eu cymunedau trwy ein rolau Gweinidogaethau Comisiynedig. Mae pobl sydd ag ymrwymiad brwd i'w ffydd yn cael eu cefnogi a'u hyfforddi gan eu hesgobaeth, ac maen nhw'n gweithio'n agos gyda chlerigion a gweinidogion trwyddedig eraill. Y tair rôl a ystyrir yn weinidogaethau comisiynedig yw Arweinydd Addoli (sy'n helpu i arwain neu gynorthwyo gwasanaethau), Cynorthwyydd Bugeiliol (sy'n ymweld â phobl mewn angen) a Chateceisiwr (sy'n helpu pobl i ddyfnhau eu ffydd trwy astudio a myfyrio).

Cyfarwyddiadau Ymuno

1. Mae'r daflen hon yn cynnwys yr holl wybodaeth.
2. Cwblhewch y Ffurflen Ymrwymo i Roi yn Syth a'r Ffurflen Debyd Uniongyrchol.
3. Tynnwch allan adran amlen y llyfr hwn. Glynwch y tamaid gludiog a'i selio.
4. Does dim angen stamp, mae'r postio am ddim.

Cysylltwch â rhywun yn yr Eglwys yng Nghymru

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y cynllun Rhoi yn Syth*, e-bostiwch: giftdirect@churchinwales.org.uk

neu ysgrifennwch atom:

Yr Eglwys yng Nghymru, 2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd. CF10 5BT

Rhowch wybod i Adran Rhoi yn Syth yr Eglwys yng Nghymru os ydych chi:

- Eisiau canslo'r datganiad yma
- Newid eich enw, cyfeiriad cartref neu gyfeiriad e-bost
- Os nad ydych yn talu digon o dreth ar eich incwm a / neu enillion cyfalaf mwyach.

* Gweinyddir gan Gorff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, sy'n elusen gofrestredig rhif 1142813.

Debyd Uniongyrchol

Mae pob banc a chymdeithas adeiladu yn rhoi'r warant a argreffir isod:

Y Warant Debyd Uniongyrchol

DEBYD Uniongyrchol

- Cynigir y Warant hon gan bob banc a chymdeithas adeiladu sy'n derbyn cyfarwyddyd i dalu Debydau Uniongyrchol.
- Os bydd unrhyw newid i swm, dyddiad neu amlder eich Debyd Uniongyrchol, bydd Corff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, Elusen Gofrestredig Rhif 1142813, yn eich hysbysu ddeng niwrnod gwaith cyn y debydir eich cyfrif neu fel y cytunwyd yn wahanol. Os gofynnwch i Gorff y Cynrychiolwyr gasglu taliad, fe gewch gadarnhad o'r swm a'r dyddiad ar adeg y cais.
- Os yw Corff y Cynrychiolwyr neu eich banc neu gymdeithas adeiladu yn gwneud camgymeriad wrth dalu eich Debyd Uniongyrchol, mae gennych hawl i ad-daliad llawn ac ar unwaith gan eich banc neu gymdeithas adeiladu;
  - Os derbyniwch ad-daliad nad oes gennych hawl iddo, rhaid i chi ei dalu'n ôl i Gorff y Cynrychiolwyr pan ofynnir i chi.
- Gallwch ganslo Debyd Uniongyrchol unrhyw bryd trwy gysylltu â'ch banc neu gymdeithas adeiladu. Mae'n bosib y bydd angen cadarnhad ysgrifenedig. Rhowch wybod i ninnau hefyd, os gwelwch yn dda.

Business Reply Plus
Licence Number
RTYE-BSZR-BLCJ

Corff y Cynrychiolwyr
Yr Eglwys yng Nghymru
Rhoi yn Syth
2 Sgwâr Callaghan
Caerdydd
CF10 5BT

Llenwch y ddwy ffurflen ganlynol.

Tynnwch yr adran ateb daledig,
ei selio a'i hanfon am ddim.

FFURFLEN YMRWYMO I RODD CYMORTH

Cwblhewch yr adrannau wedi eu marcio gyda *

* **MANYLION Y RHODDWR:**

Teitl:..... Enwau cyntaf: .....

Cyfenw: .....

Cyfeiriad Cartref: .....

..... **Cod Post:** .....

* Iaith ddewisol ar gyfer gohebiaeth: **Cymraeg** **Saesneg** **Dwyieithog**

* Dull gohebu: **Post** *(fel uchod)* ☐

neu ☐ **e-bost:** .....

* **Swm y Rhodd**	£ .....
* **Pa mor aml – *6ed o'r mis (neu'r diwrnod gwaith nesaf)***	**Ticiwch un blwch**
Misol	
Bob Dau Fis *mewn misoedd eilrif*	
Chwarterol *ym mis Mawrth, Mehefin, Medi a Rhagfyr*	
6 misol *ym mis Mehefin a Rhagfyr*	
Yn flynyddol, *nodi mis*	
Taliad untro, *un taliad*	

*** Buddiolwr**

Enw: .....

Rhodd Cymorth ☐
Ticiwch y blwch hwn os hoffech roi Rhodd Cymorth ar eich rhodd.

Rwy'n drethdalwr yn y DU ac yn deall mai fi sy'n gyfrifol am dalu unrhyw wahaniaeth os ydw i'n talu llai o Dreth Incwm a / neu o dreth Enillion Cyfalaf na'r swm o Rodd Cymorth a hawlir ar fy holl roddion yn y flwyddyn dreth honno.

Os ydych chi'n talu Treth Incwm ar y raddfa uwch neu ychwanegol ac am dderbyn y gostyngiad ychwanegol yn y dreth sy'n ddyledus i chi, rhaid i chi gynnwys eich holl roddion Rhodd Cymorth ar eich ffurflen dreth Hunanasesiad neu ofyn i Gyllid a Thollau EF addasu eich cod treth.

Cynnydd Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ☐
Ticiwch y blwch hwn os hoffech i ni gynyddu eich rhodd yn awtomatig bob blwyddyn yn unol â'r CPI (nid yw'n berthnasol i roddion untro)

Rwy'n awdurdodi Corff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, (Rhif Elusen Gofrestredig 1142813), i gasglu o'm cyfrif banc y swm a nodir uchod neu unrhyw swm a nodaf wedi hynny.

O fewn mis i'w dderbyn bydd yr Eglwys yng Nghymru yn anfon eich rhodd (a'r dreth a ad-delir os bydd hynny'n briodol) ymlaen i'r plwyf a nodwyd gennych.

* Llofnodwyd: ..... Dyddiad: .....

Cyfarwyddyd i'ch Banc neu i'ch Cymdeithas Adeiladu dalu drwy Ddebyd Uniongyrchol

Cwblhewch y ffurflen gyfan mewn beiro a'i dychwelyd at:
Corff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru,
2 Sgwâr Callaghan, CAERDYDD. CF10 5BT

DIRECT Debit

Elusen Gofrestredig Rhif 1142813.

Rhif Adnabod y Cychwynnydd: 8 3 6 4 4 6

Enw(au) Deiliad (Deiliaid) y Cyfrif:

Rhif Cyfrif y Banc / Cymdeithas Adeiladu:

Cod Didoli'r Gangen:

Llofnod(ion): .....

Dyddiad: .....

Mae Corff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru yn cymryd Diogelu Data o ddifrif. Gellir dod o hyd i wybodaeth am sut y cedwir eich data a sut y caiff ei brosesu yn: https://www.churchinwales.org.uk/cy/privacy-notice.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os oes angen gwybodaeth ychwanegol arnoch, cysylltwch â'r Adran Gyfreithiol
legal@churchinwales.org.uk *neu* dros y ffôn ar 029 2034 8200

AT DDEFNYDD SWYDDFA:
Cod y Plwyf: ..... Rhif DG: ..... ID Rhoddwr: .....